**TACTEG**
GWYDDONIAETH


**CWESTIYNAU CWIS:**
**Bioleg - Celloedd yn byw: L5-7**

1: Gorffenna'r brawddegau gan ddefnyddio'r saith nodwedd ganlynol o bethau byw.
Dewisa'r geiriau cywir i'w rhoi yn y bylchau.

**Tyfu**
**Resbiradu**
**Fod yn sensitif**
**Atgenhedlu**
**Ysgarthu**
**Maethiad**
**Symud**

Rhaid i bob organeb byw gyflawni saith proses er mwyn byw. Mae popeth byw yn cael maeth trwy'r broses o'r enw _______________. Rhaid iddyn nhw gael egni o'u bwyd trwy'r broses ______________ . Maen nhw'n cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff trwy broses o'r enw ______________. Mae popeth byw yn dueddol o fynd yn fwy o ran maint ac yn fwy cymhleth. Yr enw ar y broses hon yw ______________ . Maen nhw'n gallu ymateb i'w hamgylchedd trwy ____________. Dydyn nhw ddim yn aros yn llonydd, maen nhw'n ______________. Mae gan bopeth byw gylch bywyd a byddan nhw'n marw yn y pen draw. Mae cenhedlaeth newydd o organebau yn cael eu cynhyrchu trwy'r broses o'r enw _____________.

2: Edrycha ar y diagramau o gell planhigyn a chell anifail.
O'r lluniau, enwa dair nodwedd sy'n gyffredin iddynt.



☐ cellbilen

☐ cnewyllyn

☐ cytoplasm

☐ cloroplast

☐ cellfur


©BBC

3: Y TAIR nodwedd mewn planhigion yw:

☐ gwagolyn

☐ cloroplast

☐ cellfur

☐ cellbilen

Mae'r frawddeg hon yn berthnasol i gwestiynau 4 - 8.

Mewn organebau amlgellog mae rhai celloedd yn addas i gyflawni swyddogaeth arbennig. Celloedd arbenigol ydynt. Cysyllta'r math hwn o gell mewn anifail neu blanhigyn gyda'i swyddogaeth. Ysgrifenna'r ateb cywir yn y blwch.

4: Pa gelloedd sy'n cario gwybodaeth enetig ac yn symud ymlaen gyda chynffon?

| |
|---|
| |

5: Pa gelloedd sy'n amsugno dŵr a halwynau mwynol o'r pridd?

| |
|---|
| |

6: Pa gelloedd sy'n symud mwcws yn y trwyn, ac ofwm yn y dwythell wyau?

| |
|---|
| |

7: Pa gell[oedd] yw'r brif gell ffotosynthetig mewn deilen werdd?

| |
|---|
| |

8: Pa gelloedd sy'n cario gwybodaeth enetig ac yn storio bwyd? :

| |
|---|
| |



©BBC


# ATEBION CWIS:
## Bioleg - Celloedd yn byw: L5-7

1: Gorffenna'r brawddegau gan ddefnyddio'r saith nodwedd ganlynol o bethau byw.
Dewisa'r geiriau cywir i'w rhoi yn y bylchau.

**Tyfu**
**Resbiradu**
**Fod yn sensitif**
**Atgenhedlu**
**Ysgarthu**
**Maethiad**
**Symud**

Rhaid i bob organeb byw gyflawni saith proses er mwyn byw. Mae popeth byw yn cael maeth trwy'r broses o'r enw **maethiad** . Rhaid iddyn nhw gael egni o'u bwyd trwy'r broses **resbiradu** . Maen nhw'n cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff trwy broses o'r enw **ysgarthu** . Mae popeth byw yn dueddol o fynd yn fwy o ran maint ac yn fwy cymhleth. Yr enw ar y broses hon yw **tyfu** . Maen nhw'n gallu ymateb i'w hamgylchedd trwy **fod yn sensitif** . Dydyn nhw ddim yn aros yn llonydd, maen nhw'n **symud** . Mae gan bopeth byw gylch bywyd a byddan nhw'n marw yn y pen draw. Mae cenhedlaeth newydd o organebau yn cael eu cynhyrchu trwy'r broses o'r enw **atgenhedlu** .

2: Edrycha ar y diagramau o gell planhigyn a chell anifail.
O'r lluniau, enwa dair nodwedd sy'n gyffredin iddynt.



☑ cellbilen

☑ cnewyllyn

☑ cytoplasm

☐ cloroplast

☐ cellfur


©BBC

3: Y TAIR nodwedd mewn planhigion yw:

☑ gwagolyn

☑ cloroplast

☑ cellfur

☐ cellbilen

Mae'r frawddeg hon yn berthnasol i gwestiynau 4 - 8.

Mewn organebau amlgellog mae rhai celloedd yn addas i gyflawni swyddogaeth arbennig. Celloedd arbenigol ydynt. Cysyllta'r math hwn o gell mewn anifail neu blanhigyn gyda'i swyddogaeth. Ysgrifenna'r ateb cywir yn y blwch.

4: Pa gelloedd sy'n cario gwybodaeth enetig ac yn symud ymlaen gyda chynffon?

**sberm**

5: Pa gelloedd sy'n amsugno dŵr a halwynau mwynol o'r pridd?

**gwreiddflew**

6: Pa gelloedd sy'n symud mwcws yn y trwyn, ac ofwm yn y dwythell wyau?

**epitheliwm ciliedig**

7: Pa gell[oedd] yw'r brif gell ffotosynthetig mewn deilen werdd?

**palis**

8: Pa gelloedd sy'n cario gwybodaeth enetig ac yn storio bwyd? :

**wy**



©BBC